


THY KINGDOM COME

DELED DY DEYRNAS

# NAWEN

*Awdur*

Y Tra Pharchedig Bob Key

DELED DY DEYRNAS

# NAWEN

Nawen: Deled Dy Deyrnas
(Awdur: Y Tra Pharchedig Bob Key)
Hawlfraint © 2023 gan Deled Dy Deyrnas.
Defnyddiwyd gyda chaniatâd.  Cedwir pob hawl yn fydeang.

Cymerir testun y Beibl a ddefnyddir yn yr argraffiad hwn o fersiwn beibl.net.
Hawlfraint © Gobaith i Gymru 2015; yr argraffiad hwn © 2015 Cymdeithas y Beibl.
Defnyddiwyd gyda chaniatâd. Cedwir pob hawl yn fydeang.

Ffotograffiaeth gan y Bugail Aaron Burden (unsplash.com: aaronburden /
pexels.com: @aaronburden). Cafwyd caniatâd i ddefnyddio'r lluniau.

DELED DY DEYRNAS

# NAWEN

*Awdur*

Y Tra Pharchedig Bob Key

# CYFLWYNIAD

Mae'r don fydeang o weddi, Deled Dy Deyrnas, wedi'i wreiddio yn arferion a phrofiad yr eglwys fore wrth iddyn nhw ufuddhau i orchymyn Iesu i aros am dywalltiad rhodd yr Ysbryd Glân.

Dywed Actau 1:14 wrthon ni y gwreiddiwyd eu cynllun cenhadu mewn gweddi gyson, chwyldroadol:

> *14 Roedden nhw'n cyfarfod yno'n gyson i weddïo gyda'i gilydd, gyda Mair mam Iesu, a'i frodyr, a nifer o wragedd.*
>
> *Actau 1:14*

Ar y pryd, mae'n amlwg eu bod wedi drysu, yn ansicr, efallai'n ofnus, hyd yn oed, wrth iddyn nhw ystyried maintioli'r dasg o'u blaenau, ond hefyd yn llawn cyffro, ar erchwyn byd newydd sbon, gan eu bod yn gwybod eu bod yn cael eu caru a'u bod wedi'u maddau fel canlyniad i farwolaeth ac atgyfodiad yr Arglwydd.

Mae Nawen *Deled Dy Deyrnas* ar gyfer 2023 yn canolbwyntio ar adnodau o Lythyr Cyntaf yr Apostol Ioan. Maen nhw'n mynegi cyffro am gymeriad Duw a'r oll mae E wedi'i gyflawni. Mae'r ffocws ar weithredoedd deinamig Duw yn y greadigaeth a thrwy iachawdwriaeth. Dyma ichi stori o gariad, gobaith, her, a heddwch. Dyma wahoddiad grymus Duw i rannu Ei fywyd a'i gariad: nid yn unig yma, nawr, ond am dragwyddoldeb.

*Deled Dy Deyrnas* ydy ein gwahoddiad a'n hanogaeth flynyddol i Gristnogion ac Eglwysi, nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y byd, i geisio'r Ysbryd Glân o'n mewn, er mwyn i ninnau allu byw a rhannu Teyrnas Dduw. Yr angerdd hwn ydy curiad calon bywyd yr Eglwys. Y presenoldeb hwn ydy'r hyn sy'n trawsnewid sefydliad dynol yn Gorff Crist.

Wrth wraidd calon *Deled Dy Deyrnas* mae ein ffocws 'Gweddi dros bump'. Mae'n wahoddiad i ddwyn pump o bobl o flaen Duw - yn ffrindiau, teulu, cymdogion neu gydweithwyr sydd heb eto ddilyn yr Arglwydd Iesu. Mae hi'n anogaeth i weddïo y bydd yr Ysbryd Glân yn agor eu calonnau a'u meddyliau i gariad, maddeuant, a thangnefedd Duw.

Ar adeg y Pentecost, derbyniodd yr Apostolion arwyddion am ddyfodiad yr Ysbryd Glân: y gwynt nerthol, y tân sanctaidd, a'r tafodau neu ieithoedd cyfathrebu. Ar adeg y Pentecost, mae Duw'n rhoi'r hawl i'r byd cyfan edrych ar Gristnogion a gweld a chlywed Newyddion Da Iesu. Fe'n galwyd i *Fyw'r Deyrnas*. Felly, fe fydd myfyrdod pob dydd yn dechrau gyda'r hyn mae Duw'n ei wneud; ac yn diweddu gyda'r hyn y'n gelwir ninnau i'w wneud.

Diolchgar ydyn ni i'r Tra Pharchedig Bob Key, sy'n arwain *Deled Dy Deyrnas* inni ar draws y Gymundeb Anglicanaidd, am lunio'r Nawen eleni a chymhwyso geiriau ysbrydoledig a heriol i fywyd yr unfed ganrif ar hugain.

Mae'r lluniau trawiadol gan y Bugail Aaron Burden o Eglwys Bedyddwyr Roseland, Maryland. Maen nhw'n fynegiant o amrywiaeth Teyrnas Dduw a hyd a lled ei gariad dros yr holl fyd.

Gobeithio y gwnewch chi ymuno â ni wrth inni weddïo, 'Tyrd, Ysbryd Glân.'

*Archesgob Caergaint, Justin Welby*
*Archesgob Caerefrog, Stephen Cottrell*

1. ..........................................................................................

2. ..........................................................................................

3. ..........................................................................................

4. ..........................................................................................

5. ..........................................................................................

# DYDD DYRCHAFAEL

## Y Duw sy’n Teyrnasu

Actau 1:10-11

*10 Tra oedden nhw’n syllu i’r awyr yn edrych arno’n mynd, yn
sydyn dyma ddau ddyn mewn dillad gwyn yn ymddangos wrth
eu hymyl nhw, 11 a dweud, “Chi Galileaid, beth dych chi’n ei
wneud yma yn syllu i’r awyr? Mae Iesu wedi cael ei gymryd
i’r nefoedd oddi wrthoch chi. Ond yn union yr un fath ag y
gweloch e’n mynd bydd yn dod yn ôl eto.”*



Mae'r angylion yn cael datgan rhyw linellau digon rhyfedd yn y Beibl. Mae Gabriel yn ymddangos i Mair, yn ferch ifanc yn ei chartref bach di-nod ym Mhalesteina, gan ddweud, 'Paid ag ofni!' Ar gyrion Bethlehem, mae bugeiliaid, carfan o bobl nad oedd yn enwog am eu sêl grefyddol, yn cael eu hysbysu bod newyddion da o lawenydd mawr iddyn nhw. Yr un ydy hi yn hanes y Dyrchafael. Mae'r angylion (dynion ifanc mewn gwyn) yn gofyn i'r disgyblion: 'Beth ydych chi'n ei wneud yma'n syllu i fyny i'r awyr?' Siawns fod o leiaf un o'r Apostolion wedi meddwl: 'Pwy ydych chi'n feddwl ydyn ni? Mae'r Iesu newydd fynd i fyny yno ac yn ystod y chwe wythnos ddiwethaf, mae'n byd wedi'i droi ben-i-waered. Fe wnaethon ni ei wylio'n marw , ei gyfarfod yn fyw eto, cael amser bendigedig yn Ei gwmni yn llawn maddeuant, adfywiad, a dysgeidiaeth. Nawr, mae E wedi'n gadael ni eto – dydy E ddim yma bellach.'

Mae fy nghydymdeimlad yn llwyr gyda Phedr, Iago, Ioan a'r lleill.

Mae'r angylion yn gwbl glir. Mae Iesu wedi mynd ac mae E wedi dweud wrth y disgyblion beth i'w wneud. Maen nhw i fod i aros am rodd yr Ysbryd Glân. Yna, yn Ei nerth, mynd allan i'r holl fyd, hyd yn oed y rhannau hynny na wydden nhw oedd yn bodoli. Maen nhw i gyhoeddi'r newyddion da am gariad achubol Duw yn Iesu Grist. Maen nhw i alw pobl i edifarhau a chredu yn yr Iachawdwr.

Dyna oedd, dyna ydy, a dyna fydd y dasg a roddwyd i'r eglwys ym mhob oes. Dyna hi, yn ei holl eglurder a symlrwydd beiblaidd. Rhoddodd yr Arglwydd, a ddyrchafodd i'r nefoedd ac sy'n teyrnasu mewn gogoniant, un comisiwn mawr. Rydyn ni i ddangos ac adrodd newyddion da Iesu. Yn Llyfr yr Actau, mae Sant Luc yn dangos inni fod y newyddion da bendigedig hwn yn cael ei arddangos ymhob iachâd, ymhob pregeth, ymhob achos o ddymchwel rhwystrau diwylliannol, yn narpariaeth bwyd i'r tlodion yn Jerwsalem, yn Paul wrth iddo herio'r athronwyr yn Athen, a chymaint mwy.

Wrth inni deithio o'r Dyrchafael i'r Pentecost, rydyn ni'n dilyn esiampl y disgyblion cyntaf. Fuon nhw wrthi'n gweddïo fel na wnaethon nhw erioed o'r blaen (Actau 1:14) a chynllunio i genhadu. Mae gweddïo dros ein pum person sydd eto i ddilyn Iesu yn un ffordd o ddod yn rhan o'r hyn mae Duw, y Duw sy'n teyrnasu, yn ei wneud. Fel y disgyblion cyntaf hynny yn Actau, rydyn ni i fod yn byw'r Deyrnas. Mae popeth a ddwedwn ac a wnawn yn dod yn rhan o'r cyhoeddiad. Rydyn ni i fod yn hysbysebion i Dduw, yn eiconau byw o'i gariad yn y byd.



# DIWRNOD 1

## Y Duw Sydd

1 Ioan 1:1-2

*[1] TYr un sydd wedi bodoli o'r dechrau cyntaf – dŷn ni wedi'i glywed
e a'i weld e. Do, dŷn ni wedi edrych arno â'n llygaid ein hunain,
a'i gyffwrdd â'n dwylo! Gair y bywyd! [2] Daeth y bywyd ei hun i'r
golwg, a dŷn ni wedi'i weld e. Gallwn dystio iddo, a dyma dŷn ni'n ei
gyhoeddi i chi – y bywyd tragwyddol oedd gyda'r Tad ac sydd wedi
dangos ei hun i ni.*

Yn gyntaf! 'Yn y dechrau cyntaf, dyma Duw' ydy geiriau cynta'r Beibl. 'Y Gair oedd yn bod ar y dechrau' sy'n agor Efengyl Ioan. Yn adnodau agoriadol ei lythyr cyntaf, mae Ioan yn dod â'r ddau ynghyd . Bywyd tragwyddol ydy newyddion da Duw. Mae'n rhodd rad ac am ddim gan Dduw: yn Dad, Mab ac, fel mae Ioan yn ei gwneud hi'n glir yn ei Lythyr, yr Ysbryd Glân.

Cariad cyflawn ydy Duw. Fel yr esboniodd Billy Graham, y lladmerydd adnabyddus hwnnw o'r ffydd Gristnogol: 'Wnaeth Duw ddim creu dynol-ryw oherwydd Ei fod yn unig; ond oherwydd mae Cariad ydy E.' Mae Duw'n ein caru ac yn caru perthynas. Darlunnir y greadigaeth yn Genesis fel Duw'n llefaru.

Mae'n llefaru ac mae pethau'n digwydd. Bydysawdau'n ehangu, bydoedd yn cael eu llunio. Goleuni, tywyllwch, lliw a gwead yn cyfuno yn rhyfeddod prydferth y cread. Micro-organebau sy'n rhy fach i'w gweld, galaethau sy'n rhy fawr i'w dirnad, mae gan bopeth ei le yng nghynllun Duw. Mae'n ddigon posib y gall theorïau gwyddonol ein cynorthwyo i geisio deall *sut* y daeth y greadigaeth, ond dywed y Beibl wrthon ni *pwy* a'i gwnaeth. Duw a grëodd y byd. Fe'n crëodd ninnau.

Wrth chwyddwydr Genesis ganolbwyntio ar un blaned ac un rhywogaeth, fe welwn fod Duw'n creu bodau dynol ar Ei lun a'i ddelw Ei hun i garu a chael eu caru. Fe'n lluniwyd ni i allu cynnal perthynas – nid yn unig â'n gilydd ond hefyd gyda Duw.

Wedi perthynas daw cyfrifoldeb. Rydyn ni i fod yn gyfrifol am y greadigaeth a osododd Duw dan ein gofal o fewn cyd-destun ein perthynas â Duw. Mae Duw'n ein caru ac fe'n crëodd fel y gallwn fod mewn cymundeb dwfn ag E.

Dyma pam, yn llyfr darluniadol Genesis, fod Duw'n dod i chwilio am Ddyn a Gwraig yn yr ardd, 'gyda'r hwyr' (Genesis 3.8). Wedi'r cyfan, dyna'r adeg o'r dydd pan fo gwaith ar ben a ffrindiau'n ymgasglu i sgwrsio.

Dydy Ioan ddim yn cyflwyno Duw fel rhyw atodiad diddorol i fywyd i'r rhai hynny sy'n mwynhau crefydda. Duw ydy Duw. Y 'FI YDY' Fawr o'r dechreuad (y teitl a ddefnyddiodd i gyflwyno'i Hun i Moses yn Ecsodus) hyd y diwedd (mae Iesu'n ei ddefnyddio amdano'i Hun yn Ioan 8:58). Fe ydy'r un a'n gwnaeth, a'n carodd, sy'n ein croesawu gartref yn Iesu ac sydd yno p'un ai a oes ots ganddon ni ai peidio, yn ei gredu ai peidio, ei angen ai peidio. Fe ydy'r Duw SYDD.

Neilltuwch yr amser heddiw i weddïo am bum person rydych chi'n eu nabod ac yn eu caru i ddod i nabod cariad Duw yn eu calonnau. Wrth ichi weddïo drostyn nhw, cofiwch mai ni ydy darluniau Crist yn y byd; eiconau Ei gariad yn y ffordd rydyn ni'n gofalu am y greadigaeth ac yn gweinidogaethu i anghenion y rhai o'n cwmpas.

# DIWRNOD 2

## Y Duw sy'n Caru

1 Ioan 4:7-8

*7 Ffrindiau annwyl, gadewch i ni garu'n gilydd, am fod cariad*
*yn dod oddi wrth Dduw. Mae pawb sy'n caru fel hyn wedi'i eni'n*
*blentyn i Dduw ac yn nabod Duw. 8 Os ydy'r cariad hwn ddim*
*gan rywun, dydy'r person hwnnw ddim yn nabod Duw chwaith –*
*am mai cariad ydy Duw.*



Gellir ystyried bywyd fel chwilio am gariad. Rydyn ni'n dyheu i roi ein cariad ac i'w dderbyn. Mae'r Testament Newydd, a gafodd ei sgwennu'n wreiddiol mewn Groeg, yn defnyddio gwahanol eiriau Groeg am gariad. Maen nhw'n mynegi'r amrywiaeth o ffyrdd y canfyddwn ac y deallwn beth ydy hi i garu a chael ein caru.

Yn yr adnodau hyn, dim ond un fersiwn o'r gair a ddefnyddir, sef y gair Groeg *'agape'*. Mae Ioan yn ei ddefnyddio pum gwaith o fewn dwy adnod. Mae'r cariad hwn yn arbennig, yn wahanol. Calon Duw sydd wrth wraidd y cariad hwn, croes Crist sy'n fynegiant aberthol iddo, a nerth yr Ysbryd Glân i greu yn y Cristion yr un ansawdd o gariad anhunanol.

Dyma gariad Duw, y Drindod Sanctaidd, sy'n galw am ymateb o gariad ynddon ni sydd ond yn bosib trwy Ei ras a'i nerth. Mae'r cariad agape hwn yn mynegi calon y Duw sydd yn gariad. Dyma'r cariad a ddangosodd Iesu ei fod yn fwy nag unrhyw gariad arall. Y cariad anhunanol hwnnw sy'n cyffwrdd â'r gwahanglwyf, yn cofleidio'r gwrthodedig, yn croesawu'r rhai a gondemnir gan gymdeithas wâr, ac sy'n agor Ei freichiau led y pen ar y groes i gwmpasu hollfyd.

Dydy Ioan ddim yn fodlon ar sugno'r cariad hwnnw yn unig gan Dduw. Dydy e ddim am i'w ddarllenwyr orffwys yn y cariad hwnnw, ac i ganfod ynddo sicrwydd maddeuant pechodau a rhyddid grymus yr Ysbryd Glân i'w rhyddhau o gaethiwed hunanoldeb a phechod; mae'n chwilio am fwy. Fel Cristnogion, rydyn ni i fod yn sianelau'r cariad hwnnw sy'n dod gan Dduw ac sydd mor amlwg yn arddangos Ei natur fel bod Ioan yn dweud 'Cariad ydy Duw.'

Mae'n hi'n drychinebus pan fo unrhyw gynulleidfa'n methu ag arddangos y cariad dwyfol hwnnw yn eu perthynas â'r Arglwydd, gyda'u cyd-Gristnogion, neu gyda'r byd y daeth Crist i'w achub. Dyma'r hyn a sgwennodd Sant Paul, '... y mwyaf o'r rhai hyn ydy cariad' (1 Corinthiaid 13), ac yn Datguddiad, mae Iesu'n dweud fel hyn wrth yr Eglwys yn Effesus, 'Ti ddim yn fy ngharu i fel roeddet ti ar y cychwyn' (Datguddiad 2). Dewch inni edrych ar ddrych ysbrydol Gair Duw a gofyn iddo wneud ein cariad yn gyflawn.

Wrth inni weddïo dros ein pum person heddiw, dewch inni gofio eu hangen am gariad. Dewch inni ddwyn o flaen Duw eu hanghenion emosiynol a chorfforol, gan weddïo y bydden nhw'n agored i'w gariad tragwyddol, Ei iachâd, Ei fywyd a'i oleuni. Mae byw'r Deyrnas heddiw yn golygu ufudd-dod i orchymyn uniongyrchol yr Apostol: 'Ffrindiau, dewch inni garu'n gilydd.' Dyma oedd nodwedd yr eglwys fore a lwyddodd i argyhoeddi eraill o wirionedd y newyddion da.

# DIWRNOD 3

## Y Duw sy'n Rhannu

1 Ioan 4:9

*9 Dyma sut wnaeth Duw ddangos ei gariad aton ni: anfonodd ei unig Fab i'r byd, er mwyn i ni gael bywyd drwyddo*



‘Sgynnoch chi ddim syniad sut mae pethau!’ Cri ydy hon o anobaith, rhwystredigaeth a phoen. Pan fyddwn ni’n teimlo ein bod yn cael ein camddeall, pan fo hi’n ymddangos nad ydy ffrindiau’n dirnad y pwysedd sydd arnon ni, pan fyddwn ni’n teimlo ein bod ni’n cael ein barnu neu’n beirniadu yn annheg neu’n anghyfiawn, yr awydd ydy gweiddi: ‘Trïwch chi gerdded yn fy sgidiau i. Trïwch chi fyw fy mywyd i.’

Wrth inni feddwl am Dduw, yr hyn ydy E, yn enwedig Ei fawredd, ardderchowgrwydd, gogoniant… yr holl eiriau beiblaidd mawreddog sy’n pwysleisio ‘Waw!’ ffactor creawdwr pob peth byw, hawdd ydy hi inni lithro i feddwl: ‘Felly, sut yn y byd y gall Yntau ddeall fy mywyd i yn 2023?’ Onid gwyliwr ydy Duw, rhyw arsyllwr, hollwybodus efallai, ond yn bell i ffwrdd heb unrhyw ddiddordeb nag yn ymdeimlo nac ymwneud â ni?

Yn y llythyr hwn, mae Sant Ioan yn tanlinellu mawredd a gogoniant creawdwr mawr. Mae’n pwysleisio Ei gariad perthynol buddugoliaethus sy’n gyrru holl hanes iachawdwriaeth. Mae’n well na hynny, hyd yn oed. Yn ein hadnod heddiw, fe gawn ein sicrhau nad arsyllwr difater pell ydy’r Arglwydd hwn ond, yn hytrach, yn un sy’n deall sut beth ydy byw ein bywyd, gan iddo Ef Ei hun ddod yn yr Arglwydd Iesu Grist. Y dyfodiad hwn i’r byd ydy’r gwarant fod Duw yn ein deall ni yn drylwyr gan iddo rannu ein bywyd ni a cherdded yn ein sgidiau.

Y person hwn, fel y dywed yr Efengyl yn ôl Ioan, ‘Drwyddo y crëwyd popeth sy’n bod. Does dim yn bodoli ond beth greodd.’ (Ioan 1.3), a fu’n fodlon, nid yn unig i fod yn saer yn Nasareth ac yn aelod o lwyth darostyngedig mewn gwlad dan orthrwm llawdrwm Rhufain, ond hefyd yn ffetws microsgopig yng nghroth Mair.

Wrth inni weddïo dros ein pump heddiw, ein gweddi ydy y caen nhw gipolwg o’r hyn mae diwinyddion yn ei alw’n drosgynoldeb a mewnfodaeth Duw, Ei ogoniant, Ei agosatrwydd. Gweddïwch iddyn nhw Ei ganfod yn gyfaill sy’n eu deall, yn Arglwydd sy’n eu caru.

Mae’r adnod hon yn ffordd fendigedig o’n hatgoffa nad teimlad yn unig ydy cariad, ond yn benderfyniad ewyllys. Mae’n amlygu ei hun trwy weithredoedd cadarnhaol wrth inni Fyw’r Deyrnas: caru’r newynog trwy roi bwyd, caru’r unig drwy gynnig cwmnïaeth, caru’r rhai hynny sydd heb eto dod i nabod Crist trwy fyw a llefaru dros Iesu gyda gwyleidd-dra ac uniondeb.

# DIWRNOD 4

## Y Duw sy'n Achub

1 Ioan 4:9-11

*9 Dyma sut wnaeth Duw ddangos ei gariad aton ni:*
*anfonodd ei unig Fab i'r byd, er mwyn i ni gael bywyd*
*drwyddo. 10 Dyma beth ydy cariad: dim y ffaith ein bod*
*ni'n caru Duw, ond y ffaith ei fod e wedi'n caru ni ac*
*anfon ei Fab yn aberth oedd yn gwneud iawn am ein*
*pechodau ni. 11 Ffrindiau annwyl, os ydy Duw wedi'n*
*caru ni gymaint â hyn, dylen ninnau hefyd garu'n gilydd.*



Dychmygwch nad ydych chi'n gallu nofio. I rai ohonon ni, mae'n bosib nad ydy hynny'n anodd iawn. Dychmygwch eich bod mewn dŵr dwfn, yn methu â chyffwrdd â'r gwaelod, wedi llwyr ymlâdd, yn ofnus ac yn dechrau cael panigs. Beth sydd arnoch ei angen? Dychmygwch fod rhywun yn cynnig darllen yn uchel gwersi cyntaf llyfr 'Dysgwch sut i nofio'. Mae ffrind arall yn cynnig nofio wrth eich ochr fel mai dim ond ei gopïo sydd raid ichi'i wneud. Fyddai'r un ohonyn nhw fawr o help. Nid angen llyfr o gyfarwyddiadau delfrydol nad oes modd ichi'u dilyn sydd arnoch chi, nac ychwaith gwylio rhywun arall yn ceisio dynwared techneg berffaith, wrth ei golwg hi, a chithau'n stryglo allan o'ch dyfnder!

Yr hyn sydd ei angen arnoch ydy achubwr bywyd. Does dim angen gwersi nofio, does dim angen ysbrydoliaeth – mae angen eich achub.

Mae Sant Ioan yn eithaf clir mai dyma ydy'r holl bwynt. Dyna pam y daeth Mab Duw i'r byd. Y *cymhelliant* oedd cariad, y *pwrpas* oedd bywyd tragwyddol, a'r *cyfrwng* oedd y groes. Am ddwy fil o flynyddoedd, mae Cristnogion wedi canfod gwahanol ffyrdd i fynegi yr hyn mae marwolaeth yr Arglwydd Iesu ar y groes yn ei olygu. Fel onglau ar ddiemwnt, mae'r amrywiol ffyrdd o edrych ar weithredoedd Duw wrth iddo ein hunioni ag Ef ei hun yn adlewyrchu gwahanol liw a gwedd sbectrwm cariad Duw. Yn yr adnodau hyn, mae Ioan yn defnyddio iaith a fyddai wedi bod yn gyfarwydd iawn i'w gynulleidfa: yr aberth. Mae holl gefndir yr Hen Destament yn dod i'r amlwg. Yno, bu pobl yn cynnig aberthau anifeiliaid i Dduw er mwyn ceisio maddeuant. Maen nhw'n dangos fod yr aberth wedi marw er mwyn i'r addolwr gael byw.

Mae'r groes yn gweithio, nid oherwydd y bydd modd i ni byth allu ei lawn ddeall na'i esbonio'n berffaith, ond oherwydd bod ein Duw sanctaidd a chariadus yn dweud mai felly y mae hi. Does dim angen i'r person yn y môr wybod am y gwyddoniaeth sy'n esbonio beth ydy nofio nac ychwaith lle gafodd yr achubwr bywyd ei wersi nofio, does dim ond angen iddo ymddiried ei hun yn llwyr i 'r achubwr. Fel mae Sant Ioan yn ei egluro yn ei efengyl, mae'n rhaid inni gredu *yn* Iesu. Rhoi'r gorau i hunanddibyniaeth neu geisio fod yn ddigonol i Dduw a gadael i ni'n hunain gael ein hachub.

Prin oedd y lleidr a drodd at Iesu wrth iddo hongian yno'n marw ar y groes nesaf at groes Iesu a datgan yn syml, 'Arglwydd, cofia fi', yn gwybod fawr am ddiwinyddiaeth, ond fe wyddai beth oedd ei angen. Mewn ymateb, dyma Iesu'n addo paradwys iddo.

Gweddïwch y bydd y pump o'ch dewis chi yn caniatáu i Grist eu hachub a chanfod yr heddwch hwnnw o wybod eich bod yn ddiogel ym mreichiau un arall.

Wrth inni fyw'r Deyrnas, does dim lle i ddychmygu ein bod yn well nag unrhyw un arall. Yn hytrach, mae'n bywydau a'n geiriau, fel y dywedodd y diwinydd mawr, Paul Tillich, un tro, yn debyg i 'Un cardotyn yn dweud wrth gardotyn arall lle i gael hyd i fwyd.'



# DIWRNOD 5

## Y Duw sy'n Rhoi ac sy'n Dal Ati i Roi

1 Ioan 3:1

*1 Meddyliwch mor aruthrol fawr ydy'r cariad mae'r Tad wedi'i ddangos aton ni! Dŷn ni'n cael ein galw'n blant Duw! Ac mae'n berffaith wir!*


Mae Sant Ioan yn profi eiliad 'WAW!' yn ein hadnod heddiw. Mae hi'n gysur weithiau meddwl fod hyd yn oed yr apostolion yn ei chael hi'n anodd ar adegau i fynegi, mewn geiriau, pa mor fawr ydy Duw. Mae Ei gariad, Ei dosturi, Ei ddealltwriaeth, Ei ddyfod aton ni yn yr Arglwydd Iesu Grist, yn gadael Ioan yn gegrwth bron. O'r diwedd mae'n penderfynu ar ffordd o grisialu rhoddion Duw trwy'i greadigaeth a'i rodd eithaf, sef rhoi Ei hun. Mae'r mynegiant a ddefnyddiai yn golygu rhywbeth fel 'cariad arallfydol'.

Fel meidrolion, does dim posib i'n dealltwriaeth ddynol ddirnad hyn i gyd, ond yr hyn sy'n hyfryd yn hyn oll ydy'r ffaith ein bod yn gallu'i adnabod, ei dderbyn, gorffwys ynddo, ei fwynhau, a'i rannu. Meddai Genesis wrthon ni fod dynoliaeth wedi'i llunio ar ddelwedd Duw. Dywed Ioan wrthon ni bellach ein bod, o gredu yng Nghrist, wedi'i haileni fel plant i Dduw; ac mae'r gwirionedd hwnnw'n ddigon i chwalu'i ben.

Bu farw fy nhad innau pan oeddwn i'n bum mlwydd oed, felly prin ydy'r atgofion amdano. Mewn lluniau, mae yna debygrwydd rhyngddon ni; ond petawn i'n magu unrhyw amheuon ynghylch plentyn pwy ydw i, does dim ond rhaid imi agor cwpwrdd a darllen fy nhystysgrif geni. Adnod y dydd heddiw, gyda'i ategiad gwych, 'Ac mae'n berffaith wir!', ydy tystysgrif geni'r Cristion. Sail ein sicrwydd ydy, nid ein teimladau ein hunain, ond gair effeithiol Duw. Does ryfedd fod cyfieithiadau mwy cyfoes yn defnyddio 'helaeth' i ddisgrifio cariad hael, gwerthfawr, hunanaberthol Duw.

Gweddïwch heddiw y bydd y pump rydych chi'n eu dal ar eich calon yn derbyn ac yn gorffwys yng nghariad y Tad, sy'n gyson yn eu galw adre i ddod yn blant iddo. Gweddïwch iddyn ganfod ynddo Fe yr heddwch a'r lle yn Ei deulu y'n crëwyd ac y'n prynwyd.

Mae byw'r Deyrnas, byw fel meibion a merched i'r brenin, yn golygu rhannu'r haelioni hwnnw. Ar achlysur bwydo'r 5,000, casglwyd 12 llond basgedaid o friwsion yn weddill. Dywed Iesu wrth ei ddisgyblion, wrth iddo edrych ar y torfeydd llwglyd, 'Rhowch rywbeth iddyn nhw'i fwyta'. Mae'n dal i ddweud hynny heddiw. Wrth i ni fyw a phrofi cariad hael, gorlifeiriol y deyrnas, fe fydd y rhai newynog yn cael eu bwydo, y rhai unig yn profi cwmni, y carcharorion yn derbyn ymwelwyr, a'r rhai tlawd eu hysbryd yn dod i ddeall y newyddion da.



# DIWRNOD 6

## Y Duw sy'n Deall

1 Ioan 4:11-12

*11 Ffrindiau annwyl, os ydy Duw wedi'n caru*
*ni gymaint â hyn, dylen ninnau hefyd garu'n*
*gilydd. 12 Does neb erioed wedi gweld Duw;*
*ond os ydyn ni'n caru'n gilydd, mae Duw yn*
*byw ynon ni ac mae ei gariad yn dod yn real yn*
*ein bywydau ni.*

Doedd y disgyblion ddim yn grŵp a oedd yn cyd-dynnu wrth reddf. Dan unrhyw amgylchiadau eraill, go brin y bydden nhw'n dewis sefydlu busnes ar y cyd neu rannu gwyliau. Casglwr trethi oedd Mathew, yn gweithio i awdurdodau'r goresgynwyr, Rhufain. Ar y llaw arall, roedd Seimon y Selot yn aelod o garfan a oedd yn gwrthwynebu talu trethi i Gesar, rhai o'u plith wedi bod ynghlwm â gwrthryfel.

Adnabyddir Iago ac Ioan, partneriaid ym musnes pysgota'r teulu ar Lyn Galilea, fel 'meibion y daran', mwy na thebyg oherwydd natur eu tymer a'u hawydd am rym. Yr un Ioan sy'n cyfeirio at ei hun fel 'y disgybl yr oedd Iesu'n ei garu' yn yr Efengyl sy'n dwyn Ei enw a ddaw yn 'apostol cariad' y Llythyr hwn. Trawsnewidiwyd ei fywyd yn llwyr, chwyldrowyd ei gymeriad trwy ei berthynas â'r Arglwydd Iesu Grist a nerth yr Ysbryd Glân.

O'n hamgylch y dyddiau hyn, fe welwn raniadau: rhywedd, tras, iaith, addysg, cefndir, cenedligrwydd. Pethau fyddai'n gallu, ynddyn nhw'u hunain, gyfrannu at amrywiaeth creadigaeth Duw, sydd bellach wedi datblygu'n achos camddealltwriaeth, cynnen, casineb, a hyd yn oed trais.

Mae gan Ein Tad Nefol, fel arlunydd o fri, palet o liwiau cyfoethog ac amrywiol, wedi'u llunio i greu darlun hyfryd o'i greadigaeth ond i ninnau, yn ein natur bechadurus a hunanol, ein balchder a'n hofn, greu llanast dychrynllyd, dieflig. Ac yn y llanast hwn, mor aml, y tlodion ydy'r rhai sy'n talu pris mwyaf ein hanallu i fod yn arddwyr cyfrifol a dibynadwy i Dduw yn Ei fyd.

Mae Ioan yn ein galw ni, yn adnodau heddiw, i gael ein diffinio gan gariad Duw, nid gan unrhyw beth arall. Dywed Sant Paul yn gwbl blaen yn Galatiaid 3:28:

> *'Sdim ots os ydych chi'n Iddew neu'n perthyn i genedl arall, yn gaethwas neu'n ddinesydd rhydd, yn ddyn neu'n wraig – dych chi i gyd fel un teulu sy'n perthyn i'r Meseia Iesu.'*

Gweddïwch y bydd y pum person bu ichi'u dewis ganfod eu hunaniaeth trwy'r hun y maen nhw yng Nghrist.

Mae'n rhaid i fyw y deyrnas olygu adeiladu eglwysi a chymunedau lle nad ydy 'Carwch eich gilydd' yn golygu dim mwy na hoffi pobl sy'n debyg i ni. Fe'n galwyd i rywbeth llawer mwy radical, llawer mwy deniadol. Fe'n lluniwyd i fod yn gymuned o weision: yn gwasanaethu a chael ein gwasanaethu gan ein gilydd ar draws yr holl rwystrau a adeiladodd y ddynoliaeth sy'n aml yn rhannu ac yn gwahaniaethu.



# DIWRNOD 7

## Y Duw sy'n Maddau

1 Ioan 1:8-9

8 *Os ydyn ni'n honni ein bod ni heb bechod, dŷn ni'n twyllo'n*
*hunain a dydy'r gwir ddim ynon ni.* 9 *Ond os gwnawn ni gyffesu*
*ein pechodau, bydd e'n maddau i ni am ein pechodau ac yn ein glanhau ni oddi wrth bopeth drwg, am ei fod e'n cadw ei air ac yn gwneud beth sy'n iawn.*

Mae seicolegwyr, awduron, enwogion, a seintiau'n dod ar draws euogrwydd ac yn ymwneud ag e mewn gwahanol ffyrdd. Mae rhai pobl yn gweld euogrwydd fel rhywbeth a ddysgwyd yn ystod plentyndod. Eraill sy'n meddwl mai peth positif ydy e sy'n atal y ddynoliaeth rhag gwneud pethau hyd yn oed yn waeth nag ydyn ni eisoes yn eu gwneud. Mae eraill eto'n ei ystyried fel emosiwn negyddol sy'n ein hatal rhag gwireddu ein llawn botensial, hyd yn oed os ydy'r llwyddiant hwnnw ar draul distrywio bywydau y rhai o'n cwmpas.

Mae Sant Ioan yn rhyfeddol o syml, gonest, realistig, ac ymarferol. Mae'n ein gwahodd i syllu yn y drych a chyfaddef y gwir. Dydyn ni ddim yn berffaith, yr un ohonon ni; ac os ydyn ni'n credu mai ymadrodd sy'n berthnasol i bobl eraill ydy 'pechadur', yna'n syml, rydyn ni'n anghywir!

Hyd yn oed mewn carchardai, mae troseddwyr yn aml yn cael eu categoreiddio fel bo'r rhai hynny sydd ddim yn dreisgar yn gweld eu hunain yn well na'r rhai treisgar. Gall troseddwyr treisgar feddwl, 'Wel, o leiaf wnes i ddim lladd unrhyw un.'

Boed dan glo neu'n rhydd, mae hi mor hawdd gwneud i ni'n hunain deimlo'n well trwy gael hyd i rywun arall i'w dilorni a'u dirmygu.

I Sant Ioan, mae ymdeimlad mawr o ryddhad mewn diagnosis cywir. Mae darllen adnodau heddiw fel mynd at y meddyg a chael gwybod bod yna newyddion drwg a newyddion da. Y newyddion drwg ydy fod rhywbeth mawr o'i le. Y newyddion da ydy fod yna iachâd neu driniaeth ddi-feth.

Dywedodd Awstin Sant, 'Mae dagrau edifeirwch yn golchi ymaith staen euogrwydd.' Rydyn ni'n hawlio'r tangnefedd, y maddeuant a'r Iawn ar y Groes, yn ogystal ag adferiad ac atgyfodiad bore'r Pasg, wrth inni gyffesu ein pechodau a chredu yng Nghrist. Dyna'r hyn sy'n cyfeirio'n gweddïau dros ein pum person heddiw. Gweddïwch i'r Ysbryd Glân agor eu llygaid, nid i euogrwydd negyddol sy'n arwain at anobaith, ond i obaith a gorfoledd maddeuant yn Iesu.

Mae byw'r Deyrnas, fel rhai sy'n nabod eu hunain fel rhai a gerir ac a faddeuwyd gan Dduw, yn gadael dim lle i deimladau o ragoriaeth ddychmygol fel y rhai hynny yn y carchar. Does yna neb y bu raid i Grist farw drostyn nhw'n fwy nag bu raid iddo farw drosof fi. Felly, yn nerth yr Ysbryd Glân:

- mae gwyleidd-dra'n disodli balchder,
- mae cyfrifoldebau'n disodli hawliau ac
- mae gwasanaeth yn disodli hunanoldeb.

# DIWRNOD 8

## Y Duw sy'n Herio

1 Ioan 2:6

*[6] rhaid i bwy bynnag sy'n honni perthyn iddo fyw fel oedd Iesu'n byw.*



Mae Duw, ein Tad cariadus, nid yn unig eisiau'r gorau *i ni*, mae eisiau galluogi'r gorau *ynddon* ni. Mae'n dyheu ein bod, yng ngrym a nerth yr Ysbryd Glân, yn byw'r bywyd Cristnogol mwyaf cynhyrchiol, mwyaf effeithiol y mae'n bosib inni'i wneud.

Mae adnod heddiw o 1 Ioan yn ymddangos braidd yn swta a didostur, ond dydy hynny ddim yn golygu ei fod yn negyddol. Mae rheolwr pêl-droed sy'n gweiddi anogaeth i'w dîm sy'n brwydro yn erbyn gwrthwynebwyr caled, yn gwneud dim ond ceisio'u sbarduno ymlaen at fuddugoliaeth. Dyna'n union sy'n digwydd yma hefyd. Mae Sant Ioan yn gwybod, wrth i Gristnogion yn yr eglwysi geisio byw i Iesu mewn byd anodd iawn, fod yn rhaid iddo'u hannog i gofio i ba dîm maen nhw'n perthyn. Mae hi'n parhau'n wir, ym myd yr unfed ganrif ar hugain, nad y ffydd Gristnogol sy'n gosod y canllawiau moesol ym mywyd cyhoeddus, moeseg busnes, neu'r ffordd mae llywodraethau'n gweithredu. Mae angen yr un math o anogaeth arnon ni.

Rydyn ni'n chwarae yn lliwiau Crist ac mae'n rhaid inni felly fyw yn ôl ei safonau Fe ac nid safonau cyffredin yr oes. Mae geiriau Sant Ioan yn bwerus o berthnasol yn ein byd lle gwelir cymaint o rymoedd yn ceisio dileu neu gau allan y ffydd Gristnogol o'r byd a bywyd cyhoeddus ac i watwar a dilorni safonau moesol Cristnogol fel rhai hen ffasiwn ac amherthnasol i'r byd cyfoes.

Yr hyn mae Sant Ioan yn galw amdano ydy gonestrwydd Cristnogol plaen. Does dim lle i ddweud un peth ond gwneud rhywbeth arall. Mae rhagrith yn broblem go iawn i efengyliaeth Gristnogol. Wrth i ninnau geisio rhannu ein ffydd ag eraill sy'n ein nabod, os nad ydy patrwm gofal Iesu dros eraill yn un a adlewyrchir ynon ni, mae'n creu tramgwydd amlwg.

Mae'r gair sy'n cael ei ddefnyddio gan Ioan yn golygu, nid yn unig 'byw/rhodio' ond 'byw/rhodio ymysg' – dyma fydd eich dillad cyffredin i'w gwisgo wrth ichi fyw/rhodio ymysg pobl. Yr un gair ddefnyddia Paul wrth iddo ein hannog i 'rodio yn yr Ysbryd' yn Galatiaid 5:16. Gan Ioan a Paul, yr her o ddydd i ddydd ydy byw/rhodio yng nghymeriad Crist, a luniwyd, nid yn ein nerth ein hunain, ond trwy nerth Pentecost yr Ysbryd Glân.

Wrth inni weddïo dros ein pum person, gweddïwch y bydd bywydau'r Cristnogion ddaw ar eu traws yn ymdebygu i Grist ac yn ddeniadol yng ngrym deinamig yr Ysbryd Glân.

Mae byw'r Deyrnas yn golygu nad oes lle inni fod fel delweddau cardbord: yn Gristnogion arwynebol heb ddyfnder na sylwedd. Rhoddodd Duw'r hawl i'r byd i graffu arnon ni a'n braint a'n dyletswydd ninnau ydy dangos cymeriad Crist i'r byd.



# DIWRNOD 9

## Y Duw sy'n Galluogi

1 Ioan 4:13

13 *Dŷn ni'n gwybod ein bod ni'n byw ynddo fe, a bod*
*ei fywyd e ynon ni, am ei fod yn rhoi ei Ysbryd i ni.*
14 *A dŷn ni wedi gweld ac yn gallu tystio fod y Tad*
*wedi anfon ei Fab i achub y byd.*

Dwi'n edrych arni fel yr effaith Niagara. Os fuoch chi erioed i ymweld â rhaeadr fawr fel Niagara ar y ffin rhwng Canada a'r Unol Daleithiau, neu Raeadr Fictoria ar yr Afon Zambezi, neu dim ond hyd yn oed wedi gweld lluniau ohonyn nhw, medrwch ddychmygu llif diddiwedd y dŵr. Mae eu mhaint, eu grym, amrywiaeth bendigedig lliwiau'r goleuni'n disgleirio ar wyneb y dŵr i gyd yn cyfuno i greu darlun trawiadol o harddwch creadigaeth Duw.

Dewch inni gymryd y darlun un cam ymhellach, gan ddychmygu fod ganddoch chi gwpan neu lestr ar waelod y rhaeadr. Fe fyddai gan y gwpan honno gyflenwad o ddŵr bywiol, atgyfnerthol i'w fwynhau tra pery'r afon i lifo. Dyna ydy'r effaith Niagara a dyna ichi ddarlun o rym Pentecost yr Ysbryd Glân.

Y Pentecost, sy'n cael ei ddathlu yfory, ydy'r dydd pan fo'r hyn mae Iesu'n ei alw 'y rhodd mae fy Nhad wedi'i addo' (Actau 1:4) yn cyrraedd. Mae'r Ysbryd Glân yn chwythu'r Cristnogion cynnar o'u swigod bach clyd ac allan i'r byd i rannu Newyddion Da Iesu Grist. Fe gawson nhw'u llenwi â llawnder yr Ysbryd Glân, a ddaeth gydag arwyddion mawr yn llawn arwyddocâd a nerth.

Dywed Luc wrthon ni fod cael eich llenwi â'r Ysbryd yn rhywbeth a ddigwyddodd sawl gwaith drosodd wrth i gyfleoedd newydd agor neu sefyllfaoedd newydd godi i'r Efengyl. Mae'r ymadrodd mae Paul yn ei ddefnyddio wrth siarad am y llenwi hynny gan yr Ysbryd Glân yn cyfieithu'n llythrennol fel ' gadewch i'r Ysbryd Glân eich llenwi' neu 'llanwer chwi â'r Ysbryd' (Effesiaid 5:18). Yr amser presennol ydy hyn yn yr iaith Roeg sy'n awgrymu gweithred barhaus. Dyma ydy'r effaith Niagara. Wrth i gwpanau ein bywydau gael eu dal o dan ddarpariaeth ddiddiwedd, ddeinamig, nerthol Duw'r Ysbryd Glân, mae digon i gwrdd â phob un o'n hanghenion ysbrydol. Efallai'n fwy pwysig fyth, mae yna orlifo er mwyn cael dangos cariad, gras, nerth ac achubiaeth Crist i'r rhai hynny o'n cwmpas.

Dyna sut mae Sant Ioan yn saernïo adnodau heddiw. Daw'r Ysbryd at y crediniwr a'r canlyniad ydy ein bod yn gweld ac yn rhannu mai Iesu ydy Iachawdwr neu Achubwr y byd. Dyna beth ydy hon ystyr a diben gŵyl y Pentecost yfory.

Gweddïwn y bydd Ysbryd Sanctaidd Duw yn agor ac yn llenwi bywydau ein pum person heddiw.

Fedrwn ni ddim 'Byw'r Deyrnas' yn ein nerth ein hunain. Ond, gydag effaith Niagara yr Ysbryd Glân, mae unrhyw beth yn bosib.



# PENTECOST

## Duw'r Holl Fyd

Actau 2:1-4

*1 Ar ddiwrnod dathlu Gŵyl y Pentecost roedd pawb gyda'i
gilydd eto. 2 Ac yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn o'r awyr,
fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n
cyfarfod. 3 Ac wedyn roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau
tân yn dod i lawr ac yn gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw.
4 Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac
yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill. Yr Ysbryd oedd yn
eu galluogi nhw i wneud hynny.*

Roedd yr hirymaros ar ben. Roedd Pentecost wedi cyrraedd, ond beth bynnag oedden nhw wedi'i ragweld, yn sicr nid dyma'r hyn roedden nhw'n ei ddisgwyl. Gŵyl Cynhaeaf oedd y Pentecost yn wreiddiol. Cewch ddarllen mwy am hynny yn Exodus 23.

Mae stori'r Pentecost yn ymwneud ag arwyddion ac mae Duw'n defnyddio arwydd Gŵyl y Cynhaeaf i gyfeirio at gynhaeaf newydd: nid cnydau ond pobl. Mae hi'n thema a ddefnyddiodd Iesu trwy'r Efengylau wrth gyfeirio'n fynych at ddelweddau o fyd ffermio yn Ei ddysgeidiaeth. Roedd yn aml yn defnyddio darluniau y byddai pobl gyffredin yn eu deall i ddysgu gwirionedd cariad Duw a'r brys mawr i ymateb mewn ffydd i'r newyddion da roedd yn ei gyflwyno.

Ceir tair arwydd ar gyfer y Pentecost: gwynt, tân, ac ieithoedd.

Chwythodd y *gwynt* yr eglwys fore o'i chuddfan glyd ac allan i strydoedd Jerwsalem. Mae'r ddelwedd o golomen fel arwydd o'r Ysbryd Glân yn cael ei defnyddio unwaith yn unig wrth gyfeirio at Iesu adeg Ei fedyddio. Arwydd yn arwain Mab sanctaidd, ufudd Duw ydy colomen addfwyn heddwch. Yr arwydd sy'n dynodi symud yr eglwys, sydd mor aml yn ddigon bodlon ei byd mewn pwyllgorau yn trafod y dibwys, ydy gwynt nerthol.

Mae'r *tân* yn cyfeirio at sancteiddrwydd. Dyma arwydd o sancteiddrwydd Duw y gellir ei holrhain yr holl fordd yn ôl at Moses a'r berth yn llosgi. Tân i losgi methiannau, chwerwder, pechodau, ac ofnau'r gorffennol. Mae Byw'r Deyrnas yn golygu hiraeth am Ysbryd Duw i'n gwneud ni'n debycach i Iesu, i'n galluogi ni i fod y bobl na allen ni fod yn ein nerth ein hunain.

*Ieithoedd*. Fe fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn Jerwsalem yr adeg hynny'n rhyw ychydig o Roeg, ond doedd hi ddim yn famiaith iddyn nhw ... a dyna ydy holl graidd yr ieithoedd neu'r 'tafodau' adeg y Pentecost. Rhoddodd Duw'r hawl i'r holl fyd glywed yr Efengyl heb orfod dysgu iaith arall na llond pen o law-fer ddiwinyddol. Mor aml, mae iaith wedi'i hanelu at y cylch cyfyng mewnol, sydd eisoes yn aelodau o'r clwb. Nid dyna wnaeth Iesu ac mae'r Pentecost yn ein danfon allan i wneud yr un fath.

Daliwch ati i weddïo y bydd y bobl werthfawr hynny y buon ni'n eu dwyn at Iesu yn ein gweddïau dros yr 11 diwrnod diwethaf yn ymateb i'w gariad mawr ac yn derbyn Ei fywyd newydd. Gweddïwch y gwnawn ninnau fyw'r Deyrnas yn amlwg ac yn syml 'er mwyn i'r byd gredu.' Ioan 17:21.



thykingdomcome.global

THY KINGDOM COME